

**COFNODION CYFARFOD
GRŴP LLYWIO BUDDSODDI RHANBARTHOL CYMRU**

Dyddiad: Dydd Iau 30 Gorffennaf 2020

Amser: 2 – 3.15pm (TEAMS)

Atodiad A: Mynychwyr

1. Croeso

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb, gan ddiolch iddynt am eu presenoldeb.

Nododd y Cadeirydd mai diben y cyfarfod hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am drafodaeth y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf fel y gallai swyddogion a rhanddeiliaid weithio ar y camau nesaf yn ystod gweddill y flwyddyn.

Croesawodd gydweithwyr o'r cwmni ymchwil SRI hefyd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i roi trosolwg o'u dadansoddiad annibynnol cychwynnol o'r adborth o'r ymgynghoriad.

2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Gan fod y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal mor fuan ar ôl y cyfarfod diwethaf ar 2 Gorffennaf, caiff y cofnodion eu dosbarthu cyn bo hir.

3. Diweddariad Cyffredinol

Gofynnodd y Cadeirydd i Rachel Garside-Jones (RGJ) roi trosolwg o'r datblygiadau diweddaraf, gan gynnwys prosiect a blaengynlluniau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), ac unrhyw ddiweddariadau ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF).

Dywedodd RGJ wrth yr aelodau fod yr OECD wedi ymuno yn rhithiol â chyfarfod y Cabinet ar 13 Gorffennaf i gyflwyno a thrafod adroddiad terfynol drafft ac argymhellion yr OECD. Ar y cyfan, roedd adborth Gweinidogion ar yr adroddiad yn gadarnhaol iawn. Mae gan yr adroddiad rai argymhellion a fydd yn gofyn am fewnbwn ac ymgysylltiad aelodau. Nodwyd hefyd y bydd rhai argymhellion i'w hystyried dros y tymor hwy a thu hwnt i dymor y Senedd hon, tra bydd angen gweithredu ar argymhellion eraill yn gyflym. Bwriedir cynnal cyfarfod arbennig o'r Grŵp Llywio hwn ar 3 Medi fel y gall yr OECD gyflwyno ei ganfyddiadau a'i argymhellion i'r Grŵp cyn lansio'r adroddiad yn ffurfiol ar 17 Medi. Bydd adroddiad drafft llawn yr OECD yn cael ei ddosbarthu wythnos cyn y cyfarfod hwnnw.

Yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Gorffennaf, cytunodd y Gweinidogion i sefydlu Gweithgor Gweinidogol (MWG), ar sail gorchwyl a gorffen, i ystyried amryw o faterion allweddol cyn cyfarfod arall o'r Cabinet ym mis Hydref i gytuno ar y camau nesaf. Bydd Cadeirydd RIWSG yn aelod o'r Grŵp hwn fel y gellir rhannu barn y

Grŵp Llywio yn uniongyrchol. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a chynnydd y MWG i gyfarfodydd y Grŵp hwn yn y dyfodol.

Er gwaethaf cyfarfodydd bob deufis gydag adran Llywodraeth y DU sy'n arwain ar UKSPF, nid oes unrhyw fanylion, cynlluniau nac amserlen o hyd ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Ni ddisgwylir manylion tan yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CSR) ddiwedd yr hydref.

Roedd sylwadau a chwestiynau'r Grŵp yn cynnwys:

- Beth yw'r broses ar gyfer dylanwadu ar CSR, yn enwedig yng nghyd-destun y ffaith nad yw cyllidebau ymchwil ac arloesi yn yr adolygiad yn cael eu cynyddu?
- O drafodaethau a gwybodaeth amrywiol, mae'n ymddangos mai Papur Gwyn Datganoli Lloegr fydd y cyd-destun ar gyfer sianelu UKSPF yn y dyfodol. Mae CLILC wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog am eu pryderon am y mater hwn ac i atgyfnerthu'r angen i ddatganoli yng Nghymru gael ei barchu.
- Un o themâu adroddiad yr OECD yw rhannu llafur yn fwy effeithiol rhwng lefelau cenedlaethol a rhanbarthol yng Nghymru. Os na fydd y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJCs) ar waith o fis Ebrill 2021 ymlaen, beth yw'r trefniadau pontio?
- Mae amryw o strwythurau presennol (e.e. Bargeinion Dinesig a Thwf, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) yn bodoli i gefnogi gwaith a chyflawniad rhanbarthol hyd nes y bydd y CJCs wedi'u sefydlu.
- Pa mor ddatblygedig yw cynlluniau buddsoddi rhanbarthol y gweinyddiaethau datganoledig eraill?
- A oes cynrychiolaeth llywodraeth leol ar y Gweithgor Gweinidogol newydd?

Ymatebodd RGJ ei bod hi'n rhannu pryderon ynghylch ymchwil a datblygu ac y bydd yn eu codi gyda chydweithwyr yn adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru. Mae ymateb i'r CSR yn cael ei ddatblygu gan y gweinyddiaethau datganoledig yn dilyn map ffordd ymchwil a datblygu'r DU. Bydd posibiladau o ran gwaith rhyngwladol a thrawsffiniol i adeiladu ar ein cryfderau ym maes ymchwil a datblygu, ac roedd cydweithwyr yn ymwybodol bod angen defnyddio dull Tîm Cymru i ddatblygu hyn.

Un o dasgau'r Gweithgor Gweinidogol fydd ystyried trefniadau pontio, gan gynnwys partneriaethau ar gyfer dyfodol buddsoddiad rhanbarthol, fel ein bod yn barod i fwrw iddi'n syth pan ddyrennir cyllid newydd Llywodraeth y DU i Gymru. Bydd y Grŵp hwn a'r is-grwpiau yn bwysig o ran helpu i ddatblygu'r trefniadau hyn.

Mae cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn cynnal sgysiau bob deufis gyda chymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. O ran paratodau gwaith rhanbarthol y gweinyddiaethau datganoledig, cynhaliodd yr Alban ymgynghoriad lefel uchel

rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020, ac mae wedi cyhoeddi canfyddiadau'r ymgynghoriad yn ddiweddar. Mae Gogledd Iwerddon ymhellach ar ei hôl hi gyda'i threfniadau, heb ymgynghoriad nac ymgysylltiad sylweddol â rhanddeiliaid hyd yma, yn bennaf gan y bu'r Cynulliad wedi'i atal dros dro tan fis Ionawr eleni. Mae Cymru ymhellach ymlaen gyda'r gwaith hwn o ran sefydlu grwpiau rhanddeiliaid yn gynnar yn 2019 ac o ran datblygu'r cynlluniau manwl ar gyfer blaenoriaethau buddsoddi a threfniadau cyflawni yn y dyfodol, ac ymgynghorwyd yn eang arnynt rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2020.

Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai yn rhan o'r Gweithgor Gweinidogol newydd. Yn ogystal, mae Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd RIWSG, yn aelod o'r Grŵp er mwyn sicrhau bod barn rhanddeiliaid yn cael ei chynrychioli. Mae grŵp swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Gweithgor Gweinidogol, gan gynnwys Timau'r Prif Swyddogion Rhanbarthol, Trysorlys Cymru a swyddogion Llywodraeth Leol.

4. Adborth o'r Ymgynghoriad

Croesawodd y Cadeirydd Suzanne Pritchard ac Angus Campbell o gwmni ymchwil SRI, sydd wedi bod yn arwain ar y dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, i roi cyflwyniad ar eu canfyddiadau cynnar.

Roedd sylwadau'r Grŵp yn cynnwys:

- Mae'r negeseuon o'r cyflwyniad yn ddefnyddiol iawn a gallant ein helpu ni i symud ymlaen mewn amryw o feysydd. A oes cynlluniau i edrych ar feysydd o orgyffwrdd rhwng y dadansoddiad o adroddiad yr OECD a'r adroddiad ymgynghori annibynnol sydd ar ddod?

Ymatebodd RGJ ein bod ni'n gweithio gydag SRI i ystyried unrhyw orgyffwrdd. Bydd y Gweithgor Gweinidogol newydd a'r Cabinet yn cael eu llywio gan y ddau adroddiad i helpu i gytuno ar y camau nesaf, yn ogystal â gwaith y Grŵp Llywio yn y dyfodol. Gallwn godi'r mater yn uniongyrchol gyda'r OECD yng nghyfarfod nesaf y Grŵp hwn hefyd.

Nododd y Cadeirydd ehangder yr ymatebion o'r ymgynghoriad ac y bydd y Grŵp yn edrych ymlaen at weld y dadansoddiad annibynnol terfynol i'w ystyried ymhellach, gan gynnwys yng nghyd-destun buddsoddiadau yn y dyfodol sy'n mynd i'r afael â'r adferiad o COVID yn ogystal â thwf tymor hwy. Diolchodd i gydweithwyr SRI am eu cyflwyniadau, a nododd y byddent yn cael eu dosbarthu i'r aelodau ar ôl y cyfarfod er gwybodaeth.

5. Y Gweithgor Gweinidogol

Nododd y Cadeirydd fod RGJ eisoes wedi crybwyll ffurfio'r Gweithgor Gweinidogol newydd, ond bod yr eitem hon yn gyfle i aelodau wneud sylwadau ar y materion allweddol a drafodir yn y papur ategol.

Nododd RGJ fod aelodaeth bresennol y Gweithgor Gweinidogol newydd yn cynnwys y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a Huw Irranca-Davies AS, sydd i gyd â diddordeb uniongyrchol yn nyfodol buddsoddi rhanbarthol.

Bydd y MWG yn cyfarfod yn ystod mis Awst a mis Medi i ystyried materion allweddol cyn cyfarfod arall o'r Cabinet ganol mis Hydref. Mae'r materion allweddol i'w trafod yn cynnwys rhanbarthiaeth, cyfrifoldebau rhanbarthol, symleiddio strwythurau, trefniadau pontio a goblygiadau COVID.

Roedd sylwadau'r grŵp yn cynnwys:

- Mae materion yn ymwneud â rhanbarthiaeth angen mewnbwn gan y rhanbarthau, gan gynnwys pedwar cadeirydd y bargeinion dinesig a thwf, er mwyn helpu i adeiladu ar gyfleoedd, llywio trefniadau yn y papurau a datblygu gwaith ar yr agwedd wledig.
- Gydag etholiad ym mis Mai 2021, a fydd cytundeb trawsbleidiol ar sut beth fydd y trefniadau pontio, gan y byddai busnesau'n elwa ar y sicrwydd hwn?
- Y pedwar maes a ddisgrifir yw'r meysydd allweddol sydd wedi'u trafod yn drylwyr gan RIWSG. Maent yn benderfyniadau anodd eu gwneud, a rhaid i Weinidogion fod yn barod i edrych arnynt o ran yr hyn a fydd orau i Gymru ymhen 10-15 mlynedd a glynu wrthynt.
- Awgrymwyd y dylid cyfrannu hefyd at y Gweithgor Gweinidogol ar y berthynas rhwng Cymru a Whitehall. Mae'n bwysig iawn i'r agenda datblygu rhanbarthol yng Nghymru, ac mae'n mynd y tu hwnt i UKSPF. Bydd elfennau eraill o fframweithiau cyffredin nad ydynt wedi'u datganoli yn cael effaith enfawr ar ein gallu i hyrwyddo buddsoddi rhanbarthol ac effaith polisi nad yw wedi'i ddatganoli ar feysydd polisi datganoledig e.e. caffael, masnach a'i effaith ar amaethyddiaeth.
- Dylai unrhyw bapur sy'n canolbwyntio ar adferiad ganolbwyntio ar adferiad gwyrdd hefyd.

Ymatebodd RGJ i'r sylwadau drwy ddweud bod cyfarfod ym mis Awst i ddwyn ynghyd arweinwyr i drafod yr agenda wledig, a byddwn yn gwneud gwaith dilynol gyda'r rhanbarthau ac yn parhau i ddiweddarau'r Grŵp Llywio yn llawn a gweithio'n agos gyda thimau'r Prif Swyddogion Rhanbarthol. O ran trefniadau pontio, erbyn mis Ebrill byddwn ni yn y cyfnod cyn yr etholiad, ac mae angen i'r papur pontio fod mor glir â phosibl ar gynlluniau fel bod y newid mor llyfn â phosibl ac yn rhoi'r sicrwydd hwnnw i fusnesau. Nododd hefyd y pwyntiau pwysig a wnaed am y berthynas rhwng Cymru a Whitehall a bod y CGMET wedi bod yn rhagweithiol yn y maes hwn, y gellir ei drafod fel rhan o'r MWG. Er mwyn hwyluso hyn, byddem yn croesawu awgrymiadau ynghylch pa gwestiynau penodol y gellid eu gofyn i Weinidogion fel y gellir ymdrin â'r mater yn y papurau sy'n cael eu cyflwyno.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gyfrannu eu syniadau a sylwadau eraill drwy eu hanfon mewn e-bost i'r blwch post buddsoddi rhanbarthol cyn cyfarfodydd y MWG. Bydd dyddiadau'r MWG yn cael eu dosbarthu i Aelodau yn unol â hynny.

6. Unrhyw fater arall a sylwadau i gloi

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3 Medi gyda chydweithwyr o'r OECD yn bresennol i gyflwyno eu hadroddiad terfynol a'u hargymhellion cyn lansio'r adroddiad ar 17 Medi. Bydd marciwr dyddiadur ar gyfer cyfarfod ar-lein yn cael ei anfon at yr Aelodau cyn bo hir.

Nid oedd unrhyw fater arall.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hamser a chau'r cyfarfod.

RHESTR O FYNICHWYR

Cadeirydd

Huw Irranca-Davies AS

Contractwyr SRI

Suzanne Pritchard

Angus Campbell

Aelodau

Sefydliad	Enw a rôl
Partneriaeth Gogledd Cymru	Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru	Y Cyngorydd Ellen Ap Gwynn, Arweinydd, Cyngor Ceredigion
Cyfoeth Naturiol Cymru	Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir
Partneriaeth De-orllewin Cymru	Y Cyngorydd Emlyn Dole, Arweinydd, Cyngor Sir Gâr Y Cyngorydd David Simpson, Arweinydd, Cyngor Sir Benfro Y Cyngorydd Rob Stewart, Arweinydd, Cyngor Abertawe
Grahame Guilford (annibynnol)	Grahame Guilford, Perchennog, Grahame Guilford and Company Ltd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Matthew Brown, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Buddsoddiadau
Canolfan Cydweithredol Cymru	Glenn Bowen, Cyfarwyddwr Rhaglen
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru	Ben Cottam, Pennaeth Materion Allanol
Partneriaeth y De-ddwyrain	Kellie Beirne, Cyfarwyddwr, Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd Nicole Somerville, Pennaeth Datblygu Busnes a Thwf Cynhwysol, Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Rhwydwaith Gwledig Cymru	Eirlys Lloyd, Partneriaethau Cymunedol/Rheolwr Canolfan Bwyd Cymru, Cyngor Sir Ceredigion
Yr Athro Kevin Morgan (annibynnol)	Yr Athro Kevin Morgan, Llywodraethu a Datblygu, Prifysgol Caerdydd
CLILC	Tim Peppin, Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy

	Lowri Gwilym, Rheolwr Tîm – Ewrop ac Adfywio, Adfywio a'r Amgylchedd
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	Alyson Thomas, Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid
Prifysgolion Cymru	Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr
CBI Cymru	Nick Speed, British Telecom
Partneriaeth Canolbarth Cymru	Carwyn Jones-Evans, Cyngor Ceredigion
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen
Colegau Cymru	Rachel Bowen, Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus
Cyngor Sir Gâr	Helen Morgan,
Ffederasiwn Busnesau Bach	Ashley Rogers

Mynychwyr Llywodraeth Cymru

Enw	Rôl ac Adran
Peter Ryland	Cyfarwyddwr - WEFO
Rachel Garside-Jones	Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Rhanbarthol - WEFO
Rhodri Griffiths	Prif Swyddog Rhanbarthol Canolbarth a De-orllewin Cymru – Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
David Rosser	Prif Swyddog Rhanbarthol, y De-ddwyrain – Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Andrew Clark	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflogadwyedd a Sgiliau – Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Jonathan Fortune	Uwch Reolwr Strategaeth - Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Ann Watkin	Pennaeth Strategaeth, Alinio a Chynllunio Gweithrediadau – Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Alison Sandford	Pennaeth Gwaith Partneriaeth - WEFO
Tracy Welland	Pennaeth Gweithredu Strategol - WEFO
Sheilah Seymour	Pennaeth Ymchwil a Dadansoddi - WEFO
Geraint Green	Pennaeth Rheoli Rhaglenni (ESF ac ETC) - WEFO
Simon Tew	Pennaeth Rheoli Risg a Pharodrydd – Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Helen Minnice-Smith	Cynghorydd Polisi Amaethyddiaeth a Newid Hinsawdd - Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
David Roberts	Uwch Swyddog Ymchwil - WEFO
Ashley Davis	Swyddog Polisi - WEFO
Michelle Holland	Swyddog Cymorth Buddsoddi Rhanbarthol - WEFO
Ceri Edwards	Uwch Reolwr Polisi - WEFO
Tom Brown	Uwch Reolwr Polisi - WEFO
John Howells	Cyfarwyddwr, Newid Hinsawdd a Chynllunio Ynni – Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
John Hughes	Pennaeth Buddsoddi Rhanbarthol – Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Ymddiheuriadau a dderbyniwyd

Sefydliad	Enw a Rôl
Llywodraeth Cymru	Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Economaidd
	Calvin Jones
Llywodraeth Cymru	Sioned Evans, Cyfarwyddwr, Busnes a Rhanbarthau
Prifysgol Caerdydd	Yr Athro Calvin Jones, Dirprwy Ddeon, Gwerth Cyhoeddus a Chysylltiadau Allanol